# Patrymau

**Uned o Waith yn canolbwyntio ar Feysydd Dysgu a Phrofiad. Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig mewn:**

**Mathemateg a Rhifedd**

Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau.

Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol.

**Celfyddydau Mynegiannol**

Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.

Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol.

Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.

**Her!**

**Dylunio a chynhyrchu darn o bapur wal.**

Gall fod ar gyfer ystafell yn yr Ysgwrn neu'r Ganolfan Groeso neu'r Caffi.

Bydd angen batrwm y papur wal adlewyrchu hanes, tirwedd a threftadaeth Hedd Wyn, yr Ysgwrn ac ardal Trawsfynydd.

Gelli di hefyd ddylunio papur wal ar gyfer rhywle yn dy ardal di sydd yn adlewyrchu hanes, treftadaeth, tirwedd neu ddiwylliant yr ardal honno.

## CYFLWYNIAD

Uned yn edrych ar haenau papur wal Yr Ysgwrn.

Mae'r 26 haen papur wal yng nghegin Yr Ysgwrn yn adlewyrchu haenau hanes y lle. Gellir gweld ffasiynau a chwaeth cyfnodau yn newis y teulu o'r papurau wal.

Yn yr uned hon gellir edrych ar yr ochr gelf a dylunio, gan archwilio'n ymarferol beth yw patrwm a sut ellir ei ail-greu ac edrych ar gelf a dylunio yng Nghymru a'r byd ehangach drwy astudio gwaith artistiaid a dylunwyr, yn hanesyddol ac yn gyfoes.

Gellir hefyd edrych ar ochr fathemategol beth yw nodweddion patrymau a sut gellir eu hail-greu a hefyd sut mae mesur a chyfrifo ar gyfer papuro arwynebedd penodol.

## GWEITHGAREDDAU POSIBL:

### Mathemateg a Rhifedd

1. Ymchwilio a dysgu am batrymau:

- Pa siapau sy'n brithweithio? diagramau
- Sut mae creu patrwm drwy ailadrodd siap?
- Sut mae cylchdroi'r siap yn effeithio'r patrwm?
- Beth yw patrwm cymesur? Sut mae creu patrwm sy'n gymesur ar hyd 1 llinnell / 2 linnell a.y.y.b?

2. Cyfrifo hyd a lled wal a phapur wal:

- Sut mae canfod arwynebedd wal neu rolyn o bapur wal? diagramau
- Sut mae canfod sawl hyd o bapur wal fydd ei angen i bapuro wal?
- Sut mae newid o droedfeddi a modfeddi i fetrau a centimetrau?
- Ydi'r patrwm ar y papur wal yn effeithio faint ohono sydd ei angen?

3. Cyfrifo sawl hyd a pha led o bapur wal fyddai angen i bapuro y wal yn yr Ysgwrn.

### Celfyddydau Mynegiannol

Celf a Dylunio:

- Ymchwilio i batrymau mewn hanes celf a dylunio e.e  Patrymau Celtaidd, patrymau rangoli, patrymau Islamaidd, patrymau cwiltiau Cymreig, patrymau brethyn/ blancedi Cymreig.
- Ymchwilio i ffasiynau papur wal e.e William Morris, Art Deco, 60au, Laura Ashley, Orla Kiely ayyb.
- Ymchwilio i batrymau a delweddau mewn gwaith artistiaid a dylunwyr cyfoes yng Nghymru e.e Elin Crowley, Melin Tregwynt, Peris &Corr, nodau clust Ruth Jen, Dorry Spikes (y gwaith yma i'w weld yn yr Ysgwrn) lluniau
- Edrych ar batrymau yn yr Ysgwrn (byddai ymweliad yn fuddiol) e.e Papur wal, blancedi gwely, waliau cerrig, giatiau a ffensys, Willow Pattern ar y dresel, y gadair ddu.
- Ymarfer creu patrymau gyda chyfryngau a thechnegau gwahanol e.e argraffu mewn inc neu baent gyda thatws, sbwng, roleri ayyb neu argraffu sgrin neu ar deilsen.
- Defnyddio cyfrwng digidol addas i ddylunio a chreu patrymau.

## MEYSYDD ERAILL

### Dyniaethau (Hanes)

- Edrych ar ffasiwn dillad, celfi a phensaerniaeth cyfnodau hanesyddol e.e blodau Edwardaidd neu Art Deco y 20au a sut oedd hyn yn dylanwadu ar bapur wal yr Ysgwrn.
- Ymchwilio i hanes pwy oedd yn byw yn yr Ysgwrn yng nghyfnodau'r gwahanol haenau. Pa ddigwyddiadau oedd yn mynd ymlaen yn y byd? Sut oedd bywyd yn yr Ysgwrn?

### Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- Gwneud papur a llaw
  DIY handmade paper | How to make paper without blender and deckle | Recycle Paper | Vijayta Sharma - YouTube.

### Iaith

- Archwilio pa hanesion sydd o dan bob haen o bapur wal yr Ysgwrn? Creu dyddiaduron, portreadau neu lythyrau o wahanol gyfnodau o hanes y ty.
- Creu hysbysebion am bapur wal o wahanol gyfnodau, gan gynnwys un cyfoes.

### Celfyddydau Mynegiannol (Drama/ffilm)

- Creu hysbyseb i werthu papur wal
- Creu fidio gyda chyfarwyddiadau ar gyfer sut i bapuro ystafell.

### Iechyd a Lles

- Edrych ar effaith cynllunio mewnol (interior design) ar deimladau ac emosiynau pobl e.  e effaith lliwiau gwahanol ar ysbryd pobl. Creu papur wal ar gyfer 'Hafan Heddwch'.

### Geiriau'r bardd

- Daw 'Geiriau'r Bardd' o 'Atgof' gan Hedd Wyn. Mae HW yn creu darlun byw o ardal Trawsfynydd gan ddefnyddio geiriau.